**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo a gynhaliwyd Nos Fawrth 15 o Awst 2017 yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meryl Green (Is-gadeirydd), Avril Jones, Alan Pritchard, Philip Roberts, Richard Robinson, Martin Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Goronwy Hughes, Hefin Jones (Cadeirydd), Rhys Parry, Haf Williams, Cemlyn Jones, Llywelyn Williams, Clifford Williams, Berwyn Parry Jones (Cyngor Gwynedd).

**Clerc:** Meirion Jones

**Aelodau Ieuenctid:** Neb

Oherwydd absenoldeb Cadeirydd y Cyngor fe Gadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Meryl Green.

**16. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i bawb am ddod i'r cyfarfod.

**17. Derbyn Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod.

**18. Datgan buddiant personol**

Unrhyw fuddiant personol i'w ddatgelu cyn cyrraedd yr eitem ar yr agenda.

**19. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf**

Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**20. Materion yn codi o'r cofnodion**

Dim – aeth y Cadeirydd drwy'r cofnodion a cafwyd diweddariad byr ar yr eitemau canlynol;

a) Eitem 9 – Adroddwyd fod cyfarfod wedi gynnal ar y safle gyda cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd ac fod hyn yn eitem penodol ar yr agenda.
b) Eitem 10 – Adroddwyd nad oedd ymateb wedi dod gan yr Heddlu eto a byddai'r Clerc yn cysylltu i ofyn am bresenoldeb yr Heddlu yn y cyfarfod nesaf. Adroddwyd ymhellach nad oedd gwybodaeth wedi dod i law am ymweliadau'r Heddlu a Llanrug nac ystadegau ar ddigwyddiadau.
c) Eitem 12 – Adroddwyd fod llythyr wedi mynd i'r Gwasanaeth Tan i ofyn am enw a cyfeiriad y person dan sylw ond hyd yma nid oes ymateb wedi dod i law.

**21. I dderbyn sylwadau ar lwybrau cyhoeddus**

Dim

**22. I dderbyn sylwadau ar y fynwent**

Nodwyd nad oedd y gwaith ar y wal yng nghefn y fynwent wedi cychwyn er fod y contractwr wedi rhoi pris am wneud y gwaith ac fod y pris hwnnw wedi ei dderbyn. Nodwyd byddai'r Clerc yn ei ddilyn i fyny.

**23. I dderbyn adroddiad ar gyfarfod gyda Cyngor Gwynedd ar faes chwarae Cwm y Glo a Dolafon.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Martin Jones fod cyfarfod wedi bod ar gae chwarae Cwm y Glo gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd parthed y posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned gymryd drosodd o redeg y caeau chwarae o'r 1af o Ebrill 2018. Yn bresennol o'r Cyngor Cymuned roedd y Cynghorwyr Martin Jones a Haf Williams, Y Cynghorydd Sir dros Gwm y Glo, y Cynghorydd Berwyn Parry Jones a'r Clerc. Fe drafodwyd nifer o opsiynau a gweithgareddau ond yn y diwedd penderfynwyd y canlynol;

- Byddai Cyngor Gwynedd yn fodlon trosglwyddo 'Rhydd-ddaliad' (Freehold) y tir ar gyfer y ddau faes chwarae yn hytrach nac unrhyw les.
- Fod angen cadarnhau yn union ble mae ffiniau y cae chwarae Cwm y Glo.
- Nodwyd fod buasai gan y Cyngor Cymuned gostau cyfreithiol a cytunodd buasai Cyngor Gwynedd yn ad-dalu'r Cyngor Cymuned.
- Nodwyd byddai Cyngor Cymuned yn dymuno gweld yr asesiad risg ar y caeau a'r offer ac ble mae unrhyw waith wedi ei adnabod sydd angen sylw, yna fod Cyngor Gwynedd yn gwneud y gwaith yma.

Adroddwyd ymhellach fod angen gweld pwy sydd berchen y darn o dir sydd yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio ac os bydd y Cyngor yn llwyddiannus yn cael y perchnogaeth yna edrych fewn i'r posibilrwydd o greu mwy o lefydd parcio.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**24. I ystyried creu holiadur i drigolion Cwm y Glo yn gofyn beth fuasai ei dymuniad o'r parc.**

Adroddwyd gan y Clerc cyn ymrwymo'r Cyngor i gymryd y caeau chwarae drosodd yna buasai yn arfer da i ymgysylltu a chymuned Cwm y Glo i holi beth yw eu dymuniad a beth fuasent yn hoffi ei weld yn y parc. Byddai hyn yn cyd-fynd a'r pwysau gwleidyddol nawr i ymgysylltu gyda'r etholwyr ar beth yw eu disgwyliadau gan y Cyngor Cymuned. Mae llawer o bobl nid ydynt ym ymwybodol o fodolaeth y Cyngor Cymuned heb sôn am ei gyfrifoldebau, beth sydd yn rhaid iddo ei wneud a beth y gall ei wneud. Byddai creu holiadur yn ffordd ymlaen i gydymffurfio a hyn a gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo

creu holiadur i drigolion Cwm y Glo yn y lle cyntaf ac wedyn ei ymestyn i Llanrug. O'r ymatebion yma, byddai yn galluogi'r Cyngor greu strategaeth gymunedol ar gyfer y dyfodol, ynghyd a rhaglen waith a blaenoriaethu'r gyllideb.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn yr adroddiad
b) Cytuno i fwrw ymlaen a holiadur i drigolion Llanrug a Cwm y Glo.

**25. Cais Cynllunio**

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C17/0714/23/RC

**Lleoliad y Safle:** 1, Swn Yr Efail, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554FG)

**Dyddiad Cofrestru:** 24-Gorff-2017

**Math o Gais:** Rhwymedigaeth Cyfreithiol

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Diwygio cymal o fewn cytundeb Adran 106 er mwyn lleihau cyfnod 'morgeisi mewn meddiant' o 8 wythnos i 4 wythnos a dileu'r geiriau 'i rhentu'.

**Penderfynwyd:** Fe ystyriwyd y cais yn fanwl gan yr aelodau ond oherwydd nad oedd digon o wybodaeth gan yr aelodau ar y cais, y teimlad oedd nad oeddynt mewn sefyllfa i wneud unrhyw fath o sylw ac i'r Clerc gyfleu hyn fel sylw am y cais cynllunio.

**26. I greu polisi iaith y Cyngor**

Adroddwyd gan y Clerc ei fod yn angenrheidiol i'r Cyngor cael nifer o bolisïau mewn lle ac yn eu mysg polisi iaith. Eglurwyd mai polisi fydd yn fydd yn cadarnhau iaith y Cyngor mewn cyfarfodydd. Mewn realiti, fydd dim newid yn ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu dim ond fod y polisi yn cadarnhau hyn.

Nodwyd ymhellach fod cwyn wedi ei dderbyn fod gwybodaeth ar yr hysbysfwrdd yn uniaith Gymraeg ac ble roedd y gwr yn Gymraeg a'r wraig yn Saesneg, yna nid oedd y wraig yn gallu ei ddarllen.

**Penderfynwyd:**

a) Awdurdodi'r Clerc i greu polisi iaith i'r Cyngor;
b) Rhoi gwybodaeth ddwyieithog ar yr hysbysfwrdd – ble'n briodol.

**27.** **I benderfynu i hysbysebu am gontractwr i wneud gwaith cyffredinol a glanhau i'r Cyngor yn dilyn cwyn diweddar parthed llochesi bysiau.**

Adroddwyd gan y Clerc ei fod wedi derbyn cwyn am gyflwr un o'r llochesi bws. Y drafferth oedd nad oedd gan y Cyngor enwau cwmnïau neu ymgymerwyr i'w galw allan ar gyfer gwneud gwahanol math o waith. Yn yr achos unigol yma, doedd yr un o'r rhai sydd yn gwneud gwaith i'r Cyngor gyda'r cymwysterau perthnasol. Adroddwyd ymhellach fod cais wedi dod i law gan un person yn holi os roedd gan y Cyngor waith glanhau a gwaith cynnal a chadw cyffredinol.

**Penderfynwyd:**

a) Hysbysebu yn Eco'r Wyddfa am gontractwyr fyddai a diddordeb gwneud gwaith i'r Cyngor fel gallai'r Cyngor greu cofrestr o gontractwyr cydnabyddedig;
b) Holi'r person y cyfeirir ato uchod os byddai a diddordeb rhoi pris am lanhau llochesi bws.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:00

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: